# YR ATODLENNI

## ATODLEN 5

Rheoliad 39

Diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

**1.**—(1) Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (awdurdodau cyhoeddus), ym mharagraff 44, ar ôl "National Health Service (Wales) Act 2006," mewnosoder "or providing both general ophthalmic services and other ophthalmic services in accordance with arrangements made with a Local Health Board in Wales under the National Health Service (Wales) Act 2006,".

### Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 27(1) (darpariaethau dehongli eraill), yn is-baragraff (b) o'r diffiniad o "family health service provider in Wales"—

(a) ar ôl "general ophthalmic services" mewnosoder ", or both general ophthalmic services and other ophthalmic services in accordance with arrangements made with a Local Health Board,";

(b) hepgorer "Part 6 of".

### Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**3.**—(1) Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019(**3**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 78(1) (dehongli), yn is-baragraff (b) o'r diffiniad o "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru", ar ôl "wasanaethau offthalmig cyffredinol" mewnosoder ", neu wasanaethau offthalmig cyffredinol a gwasanaethau offthalmig eraill fel ei gilydd yn unol â threfniadau a wnaed â Bwrdd Iechyd Lleol,".

(**1**) 2000 p. 36.
(**2**) 2006 p. 30.
(**3**) 2019 dccc 3.